Arian gyda'ch enw chi arno?

Profiadau cleientiaid y Canolfannau CAB o gredydau treth

Mae credydau treth ymysg polisïau arweiniol y Llywodraeth. Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd â phlant sydd yn gweithio yn awr yn cael credydau treth i ychwanegu at eu hincwm, ond mae llawer o'r teuluoedd tlotaf yn dibynnu'n llwyr arnynt.

Mae pobl ar incwm isel, rhieni unigol a phobl ag anableddau oll yn ganolbwynt i bolisïau allweddol y Llywodraeth, polisïau a fwriedir i leihau tlodi ac annog pobl i weithio a chynilo. Rhaid gwneud gwelliannau ar frys i'r weinyddiaeth. Rhaid gwneud newidiadau hefyd i'r ffordd y caiff gordaliadau eu hadennill, er mwyn sicrhau bod y system credydau treth yn cyflawni.

Cefndir

Mae diwygiadau'r Llywodraeth i'r systemau treth a budd-daliadau yn seiliedig ar wneud i weithio dalu, a mynd i'r afael â thlodi. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i haneru tlodi ymysg plant, ac mae am sicrhau bod 70 y cant o rieni unigol mewn gwaith erbyn 2010. Mae'r rhain yn amcanion y mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn eu croesawu.

Mae 6.1 miliwn o deuluoedd, sy'n cynnwys 10.3 miliwn o blant wedi cael credydau treth. Mae hyn yn cynnwys 0.8 miliwn o deuluoedd sy'n cael budd-daliadau nawdd cymdeithasol ar gyfer plant ond nid credydau treth. Cyfrifwyd bod cyfanswm o £13.6 biliwn wedi ei dalu y flwyddyn ddiwethaf.

Gall dyfarniadau credydau treth fod yn rhan sylweddol o incwm wythnosol y rhai hynny sydd ar yr incwm isafs

Gallai rhiant unigol sydd ag un plentyn, sy'n gweithio 20 awr yr wythnos gan ennill yr isafswm cyflog ac yn talu £80 yr wythnos am ofal plant fod â'r hawl i gael dros £8,000 y flwyddyn mewn credydau treth.

Mae teuluoedd gydag incwm uwch yn cael oddeutu £10 yr wythnos. Byddai teulu gydag incwm o £25,000 y flwyddyn yn cael £545 y flwyddyn.

Nod y credydau treth yw rhoi:

- lefelau uwch o gefnogaeth ariannol, i deuluoedd gyda phlant ac i bobl sy'n gweithio
- lleiafswm incwm sicr i bob teulu
- cefnogaeth ddi-dor i deuluoedd, boed nhw mewn gwaith ai peidio
- system ymatebol sy'n newid i adlewyrchu incwm ac amgylchiadau teuluoedd.

Y prif ganfyddiadau

Mae gweinyddiaeth credydau treth wedi bod yn gwneud lefel o gamgymeriadau cwbl annerbyniol. Mae Cyllid y Wlad wedi methu â chadw at ei safonau ei hun o ran eglurder gwybodaeth ac effeithlonrwydd gwasanaeth. Mae hyn yn golygu bod rhai teuluoedd wedi gweld nad yw eu hincwm yn sicr nac yn ddi-dor.

Mae bod yn ymatebol i newidiadau yn iawn, os yw'n gweithio'n dda – mewn sawl achos a welsom, nid yw Cyllid y Wlad wedi ymateb i'r wybodaeth a gafodd, a bu'n eithriadol o araf yn datrys problemau. Mae pobl ar yr incwm isaf yn neilltuo arian fesul wythnos, nid bob blwyddyn, felly mae sefydlogrwydd incwm o un wythnos i'r llall cyn bwysiced â thalu'r symiau ychwanegol y mae credydau treth yn awr yn eu cynnig.

Mae tystiolaeth y Canolfannau CAB yn dangos bod problemau gyda chredydau treth wedi arwain at:

- fod swyddi yn cael eu rhoi yn y fantol, oherwydd na all bobl ddal i dalu am ofal plant ar ôl colli'r gefnogaeth yr oeddent yn ei chael drwy'r credydau treth
- bod incwm gwirioneddol teuluoedd yn cael ei ostwng yn is na lefelau tlodi, heb unrhyw daliadau ar gyfer plant heblaw am fudd-dâl plant, yn aml oherwydd camgymeriad yn y swyddfa Credydau Treth
- bod cartrefi pobl yn cael eu rhoi yn y fantol, oherwydd bod ganddynt ôl-ddyledion rhent neu forgais ar ôl i'r incwm credydau treth gael ei stopio neu ei ostwng yn aruthrol
- bod pobl yn cael y cyngor anghywir i drefnu benthyciadau er mwyn ad-dalu credydau treth

Awgryma ein tystiolaeth bod y grwpiau anoddaf i'w cyrraedd yn colli hyder yn y credydau treth.

Incwm sicr?

Bwriad credydau treth yw darparu incwm sicr a sefydlog, ond ar gyfer nifer fawr o'n cleientiaid, maent yn methu â gwneud hyn oherwydd bod yr hawl yn un flynyddol.

Mae nifer fawr o gleientiaid y Canolfannau CAB wedi cael eu gadael gydag incwm sy'n cynnwys cyfradd oedolion y cymhorthdal incwm yn unig, sef oddeutu £55 yr wythnos, yn ogystal â'r budd-dâl plant, sef £17 yr wythnos (am un plentyn).

Mae teuluoedd ar yr incwm isaf, yn enwedig rhieni unigol a phobl nad ydynt yn berchen ar eu tai, ymysg y grwpiau allweddol y bwriadwyd iddynt elwa o gredydau treth. Hwy hefyd yw'r rhai sydd fwyaf mewn dyledion a fwyaf mewn risg o gael problemau gyda'u dyledion os bydd eu hamgylchiadau gwaith neu bersonol yn newid.[1] Mae ymchwil gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) hefyd wedi dangos bod gostyngiad mewn incwm o gyn lleied â 10 y cant yn cael effaith fawr ar ymddygiad cynilo.[2]

Bwriedir i'r system credydau treth fod yn un ymatebol, gan gynyddu pan fydd incwm yn gostwng neu pan fydd amgylchiadau yn newid. Mae llawer o'r rhai hynny sydd ar incwm isel a phobl anabl yn rhan o'r farchnad lafur hyblyg, gan symud o fudd-dâl i waith; mae credydau treth yn eu hannog i wneud hynny. Mae'r system wedi methu ag ymdopi gyda'r newidiadau y mae'r bobl hyn ac eraill yn eu hwynebu.

[1] *Overindebtedness in Britain,* adroddiad i'r DTI, Kempson, 2002

[2] *Savings and Life Events*, McKay and Kempson Adroddiad Ymchwil DWP 194 Hydref 2003

Achos 1

Galwodd menyw i ganolfan CAB yn hwyr un prynhawn Gwener oherwydd bod ei thaliadau credydau treth plant wythnosol wedi stopio. Dim ond £2 oedd gan y cleient i fynd gartref, a phrynu bwyd i'w dau blentyn ac iddi hi ei hun. Roedd amgylchiadau personol y cleient yn newidiol; roedd hi'n rhiant sengl, ond symudodd partner a oedd yn gweithio i mewn ati yn ystod y flwyddyn i helpu'r cleient i ofalu am y plant. Roedd hi hefyd yn dioddef o diwmor ar yr ymennydd. Roedd ei horiau gwaith wedi gostwng oherwydd ei gwaeledd. Er bod y cleient wedi cysylltu gyda'r swyddfa credydau treth sawl gwaith roedd ei hawliad yn llanast llwyr.

Achos 2

Dywedodd swyddog cydymffurfio'r credydau treth wrth un fenyw a oedd wedi gwneud camgymeriad gonest ar eu ffurflen gais fod arni £14,000 ac y byddai'n rhaid iddi hefyd dalu £3,000 o gosb yn ogystal â llog. Dywedodd swyddog cydymffurfio'r credydau treth y dylai drefnu benthyciad gydag un o fanciau'r stryd fawr, oherwydd y byddai'n codi llai o log na Chyllid y Wlad.

Achos 3

Cafodd un cwpl 34 o lythyron oddi wrth Gyllid y Wlad mewn cyfnod byr. Roedd eu dyfarniad hwy wedi cael ei seilio ar ddau o blant, er bod ganddynt dri. Yna dywedwyd wrthynt fod ganddynt ordaliad o £500; credai'r cleientiaid mai £200 yn unig oedd y ffigur cywir. O'i asesu eto, dywedodd Cyllid y Wlad ei fod yn £1000.

Achos 4

Teulu, dau o blant, y ddau riant yn gweithio. "Ar hyn o bryd, rydym ni'n methu gwybod sut i esbonio'r gordaliad oherwydd bod yr incwm wedi gostwng." Mae'r costau gofal plant i alluogi i'r ddau weithio yn £550, ond ni chânt unrhyw help ar hyn o bryd. Bydd cartref y cleientiaid yn cael ei ailfeddiannu.

Gordaliadau

Mae'r ffigurau ar gyfer 2003-04 yn dangos:

- bod traean o'r holl deuluoedd wedi cael eu gordalu (1.88 miliwn o'r dyraniadau allan o gyfanswm o 5.67 miliwn)
- bod mwy na hanner y gordaliadau dros £500, a bod traean dros £1000. I bob pwrpas, roedd arna dros 300,000 o deuluoedd rhwng £2000 a £5000 i Gyllid y Wlad.

Gwybodaeth a chyngor

Caiff dyfarniadau credydau treth eu pennu drwy ffurflenni y mae'r hawlwyr yn eu llenwi. Cyfrifoldeb yr hawlydd yw sicrhau bod yr holl wybodaeth y mae'n ei chyflwyno yn gywir. Rhaid i bobl hefyd roi gwybod i Gyllid y Wlad am unrhyw newidiadau pwysig, megis rhoi'r gorau i weithio, cael cyflog uwch neu wahanu oddi wrth bartner. Rhaid iddynt sicrhau bod yr hysbysiadau o'u dyfarniadau yn gywir, ond eto ni cheir dadansoddiad manwl nac eglurder.

Gyda'r credydau treth rhaid i bobl lenwi ffurflenni a chadw cofnodion o'u hincwm nhw ac incwm eu partner, eu horiau, taliadau gofal plant a manylion eraill a allai effeithio ar eu hawliad o bosib. Mae'r symudiad o fudd-daliadau i gredydau treth yn golygu bod rhagor o bobl yn llenwi'r hyn sy'n debyg iawn i ffurflen dreth.

Ni chredwn fod hyn yn realistig, hyd yn oed os gweinyddir y system yn gywir. Mae llawer o bobl yn dioddef o ddiffyg sgiliau rhifedd a llythrennedd sylfaenol. Dengys ffigurau swyddogol fod 7 miliwn o oedolion yn Lloegr sy'n methu â darllen nac ysgrifennu ar y lefel y byddem yn ei disgwyl gan blentyn 11 oed. Mae hyd yn oed rhagor yn cael problemau gyda rhifau.

Camgymeriadau swyddogion, rhesymoldeb a chydymffurfio

Cyllid y Wlad oedd yn gyfrifol am bron i 2 miliwn o ordaliadau yn 2003/04. Mae gan Gyllid y Wlad ddisgresiwn i adennill yr holl ordaliadau a ddisgrifir mewn Cod Ymarfer, hyd yn oed mewn achosion lle mai camgymeriad gan Gyllid y Wlad sy'n gyfrifol am y gordaliad. Rhaid iddi gael ei bodloni ei bod yn rhesymol i'r hawlydd feddwl bod y dyfarniad yn gywir. Mater i'r hawlydd yw profi hyn a bydd y broses o adennill y gordaliad yn dal i fynd rhagddi tra gwneir y penderfyniad. Ni cheir unrhyw hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau i adennill yr arian.
Mae'n bosib i Gyllid y Wlad bennu cosbau trwm ar bobl y creda sydd wedi gwneud datganiadau neu hawliadau esgeulus neu dwyllodrus (ac mae yn gwneud hynny). Rhoddir cosbau o hyd at £3,000 mewn achosion o'r fath. Gall methu â chyflwyno gwybodaeth neu dystiolaeth arwain at gosb o £300, yn ogystal â chosbau dyddiol o hyd at £60. Mae'n bosib y codir llog hefyd.

Achos 5

Dychwelodd un fenyw a oedd â phroblemau iechyd meddwl i'r gwaith gyda help y credyd treth gwaith, gan gynyddu ei horiau yn ddiweddarach er mwyn elwa o'r elfen 30 awr. Ni ymatebodd Cyllid y Wlad i'r newidiadau y dywedodd hi amdanynt, daeth ei thaliadau i ben a chafodd nifer o hysbysiadau dyfarniadau amrywiol. Dioddefodd y cleient chwalfa nerfol ac roedd y problemau gyda'r credydau treth yn ffactor yn hynny.

Achos 6

Roedd un rhiant unigol na chafodd unrhyw daliadau credydau treth am wythnosau olaf y flwyddyn credydau treth, a bu'n rhaid i'r CAB roi iddi barsel bwyd oddi wrth Fyddin yr Iachawdwriaeth er mwyn iddi fwydo ei phlant. Roedd wedi gwario'i harian olaf ar fesuryddion nwy a thrydan ac ar fwyd i'r babi.

Achos 7

Yn union ar ôl diwedd blwyddyn 2003/04 talodd Cyllid y Wlad swm o £3,500 i un fenyw. Dychwelodd yr arian oherwydd na chredai ei bod wedi cael taliad rhy isel. Mynnai Cyllid y Wlad ei fod yn ddyledus gan ei dalu eilwaith. Pan ddychwelodd hi'r arian am yr ail waith cysylltodd Cyllid y Wlad gyda hi gan fynnu mai ei harian hi oedd gan ei dalu am y trydydd gwaith. Ddau fis yn ddiweddarach, fe'i hysbyswyd eu bod wedi gor-dalu £4,900 iddi.

Achos 8

Disgrifiodd un cynghorydd CAB yr effaith ar y cleient fel "anobaith. Roedd y cleient wedi mynd o normalrwydd i lif cyson o hysbysiadau o'i dyfarniad na allai unrhyw un eu deall. Mae'r cleient yn dal heb ganfod a yw'r gordaliad wedi cael ei adolygu neu a oes yn rhaid ei ad-dalu. Bu i ni ysgrifennu at yr adain credydau treth ym mis Hydref 04, Rhagfyr 04 a Ionawr 05. Hyd heddiw, ni chefais ateb i'm llythyrau. Ni allaf wneud rhagor. Mae unrhyw beth a wnaf yn diflannu."

Argymhellion allweddol er mwyn diwygio

Ansawdd y weinyddiaeth a'r cyngor

- Mae'n hanfodol bod yr hawlwyr yn gallu deall credydau treth ac y gallant gael gwybodaeth gywir. Rydym yn siomedig na chaiff newidiadau y bwriedir eu gwneud i hysbysiadau o ddyfarniadau eu cyflwyno tan Ebrill 2006, ac anogwn iddynt gael eu gweithredu yn gynt.
- Rhaid i gynghorwyr llinell gymorth y credydau treth allu esbonio hysbysiadau dyfarniadau wrth yr hawlwyr.
- Mae gofyn cael cyngor wyneb-wrth-wyneb gwell am gredydau treth.
- Er mwyn gwella atebolrwydd a thryloywder, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth gyhoeddedig am berfformiad a gwybodaeth arall am gwynion, amseroedd ymateb i ohebiaeth, amseroedd clirio apeliadau, a nifer y dyfarniadau a addasir sy'n gadael teuluoedd ar incwm sy'n is na'u hawl wythnosol neu fisol.

Adennill credydau treth a ordalwyd

Mae nifer aruthrol o ordaliadau a chamgymeriadau wedi digwydd o ganlyniad i fethiannau'r system. Rhaid cymryd camau brys er mwyn adfer hyder yn y system.

Mae angen dull gweithredu newydd, ac argymhellwn y pump cam canlynol:

- dylai pob addasiad i daliadau gael ei gyfyngu i sicrhau na chaiff hawlwyr eu gadael gydag incwm wythnosol sy'n is na'r lefelau gofynnol
- os oes gordaliad o'r flwyddyn flaenorol a'r flwyddyn gyfredol, fel ei gilydd, ni ddylid cyfuno'r ad-daliad, fel bod y taliadau yn cael eu gostwng yn aruthrol
- yng ngoleuni'r lefel uchel hanesyddol o wallau gweinyddol, dylai rhagor o ordaliadau gael eu diddymu. Dylai'r holl ordaliadau sy'n cael eu hadennill o ddyfarniadau terfynol neu addasiadau gael eu hesgusodi os digwyddodd y gordaliad heb fod bai ar yr hawlydd na thrwy weithgaredd twyllodrus.
- dylid bod hawl apelio annibynnol iawn yn erbyn penderfyniadau Cyllid y Wlad, mewn achosion y bu i Gyllid y Wlad wneud y camgymeriadau, pa un ai a oedd yn rhesymol ai peidio i'r hawlydd weld y gwall ar hysbysiad dyfarniad cymhleth
- dylai elfen gofal plant y credydau treth gwaith bob amser gael ei thalu'n llawn, er mwyn galluogi i deuluoedd aros mewn gwaith.

Mae'r adroddiad llawn Arian gyda'ch enw chi arno ar gael am £6.00 (gan gynnwys postio). I archebu eich copi, anfonwch eich enw a'ch cyfeiriad, ynghyd â siec yn daladwy i Citizens Advice, i Social Policy Department, Citizens Advice, Myddelton House, 115-123 Pentonville Road, Llundain N1 9LZ.

Cyhoeddwyd gan Citizens Advice
115-123 Pentonville Road
Llundain N1 9LZ
Ffôn: 020 7833 2181 Ffacs: 020 7833 4371
www.citizensadvice.org.uk
Mae Cyngor ar Bopeth yn enw gweithredol ar:
Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth
Rhif cofrestru elusen 279057